# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Ebrill 2022 – Cyfrol 7- Rhifyn 7

## Haelioni anhygoel

Bore Sadwrn 5ed Mawrth, agorwyd yr Ystafelloedd Coco am ddwy awr er mwyn rhoi cyfle i bobl yr ardal gyfrannu arian tuag at bobl Wcráin, lle'r oedd paned, bisged a sosej rôls (rhoddedig gan Dan y Bwtsiar) ar gael!

Casglwyd £1780 ar y bore a'r swm terfynol, anhygoel, oedd £2400. Derbyniodd y Groes Goch £1000, Achub y Plant £1000 a'r Pwyllgor Argyfyngau £400. Diolch i bawb am eu haelioni ac i Bryn ac Anwen am y trefniadau trylwyr.










**Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn ac i'r rheini sy'n parhau i gyfrannu'n hael yn ariannol.**

**Wrth nôl eich copi o'r *Llais* o swyddfa'r post neu o siop y cigydd, cofiwch roi cyfraniad yn y bocsys casglu, os gwelwch yn dda.**

## Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Ddinbych 2022, Mai 30 – Mehefin 5




O'r diwedd!! Ar ôl disgwyl yn amyneddgar am ddwy flynedd hir ac anodd, mae'n Heisteddfod Genedlaethol Ni ar ei ffordd fis nesaf! Cofiwch fod pawb eleni yn cael mynediad am ddim i'r Maes ac i'r Sioeau a Chyngherddau gyda'r nos. Er bod popeth am ddim, mae'n rhaid archebu tocynnau ymlaen llaw, a chael e-docyn, gan fod rhaid cael syniad o'r niferoedd sy'n dod drwy'r giatiau o ran rheolau diogelwch a chadw pellter.

Bydd pwyllgor gweithgar Llandyrnog, Llangwyfan ac Aberchwiler yn dirwyn yr holl weithgareddau codi arian i ben gyda Bore Coffi yn y Neuadd fore Sadwrn Ebrill 23ain am 10 o'r gloch – dowch draw am baned a sgwrs!!



**Cyngerdd o gerddoriaeth gan blant Llandyrnog a'u gwesteion i godi arian at blant Wcráin**

**Nos Sadwrn 2 Ebrill am 6 o'r gloch**
**Neuadd Llandyrnog**

Tocynnau £5 ar gael o siop y cigydd Daniel Jones, Llandyrnog
Nifer cyfyngedig ar werth.

Bydd lluniaeth ar gael
a raffl ar y noson

# Pytiau newyddion y pentre

**Pob dymuniad da** i Mrs Barbie Major ar ddathlu ei phen blwydd yn 99 oed, 29ain Ebrill;
i Gwil a Fanwy, Tŷ Newydd yn eu cartref newydd yn 2, Maes Tyrnog;
i Wendy Grey-Lloyd wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty; ac
i Steve Juckes-Hughes ar ei ymddeoliad fel prif ddylunydd mecanyddol cwmni Qioptic, Llanelwy – mwynha'r beicio a'r hamddena!

**Llongyfarchiadau** i Mary, Llys y Bryn ar ddod yn hen Nain i Gwen, merch fach John ac Anna. Hefyd i James a Manon, Llanbedr DC, ar enedigaeth merch fach, Rhiannon. Wyres gyntaf i Bryn ac Anwen, a gor-wyres i Gwen Davies a'r Parch Bernant Hughes.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys iawn â theulu'r diweddar Clwyd (*y Bwtsh*) Williams, y cigydd a sefydlodd ein siop gig werthfawr ar gornel sgwâr y pentre ar ddechrau'r 1990au. Dechreuodd ei dad, John Williams gadw siop gig yng ngwaelod y dref Dinbych, a dilynodd Clwyd grefft ei dad. Yn y man, symudodd Clwyd i gadw siop gig yn Rhuthun, ac yna i bentre' Llandyrnog am flynyddoedd. Cymeriad hoffus, parod ei gymwynas, gyda gwên ar ei wyneb bob amser. Gallwn ni ond ategu'r deyrnged hon i Clwyd gan Daniel, y perchennog presennol: '*Dysgodd y dyn hwn bopeth rydw i'n ei wybod heddiw. Fyddwn i byth wedi cael y cyfle i brofi fy hun heb help Clwyd. Pan oeddwn i'n 19 oed, cynigiodd werthu'r siop i mi – wnes i ddim meddwl ddwywaith! Y dasg fwya' anodd i mi oedd cadw safon y cynnyrch o'r ansawdd uchaf roedd Clwyd wedi ei roi i'w gwsmeriaid am ddegawdau. Dyma ŵr bonheddig o'r radd flaenaf.*' Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Val a Bryn a'r teulu oll.

Cydymdeimlwn hefyd â Richard, Karen, teulu a ffrindiau Mrs Ruth Williams, Stabal, Rhiwbebyll Isaf fu farw'n ddiweddar yn dilyn salwch byr. Roedd Ruth a'i diweddar ŵr, Richard, yn byw yn y Stabal ers 28 mlynedd. Cyn symud i Landyrnog, roedd ganddyn nhw dŷ bwyta ym Mhortiwgal. Bu Ruth yn helpu ei nai Graham yn *Greenfingers* am nifer o flynyddoedd.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Margaret Jones, Hafan Dawel. Cofir yn arbennig amdani am ei gwên serchus yn yr Ystafelloedd Coco adeg etholiadau. Cydymdeimlwn yn ddwys â Dafydd a Heddwen a'r holl deulu.

**Pnawn y plant yng Nghapel y Dyffryn:** Ar ôl dwy flynedd lom ac anarferol o ddistaw, roedd hi'n braf clywed bwrlwm hwyl a chwerthin iach gan y Gymdeithas yn y festri unwaith eto. Wedi mwynhau sgwrs dros baned o de a chacennau blasus, bu'r plant wrthi'n cael cyfle o'r diwedd i berfformio o flaen cynulleidfa fyw. Bu Efa, Anna, Beth, Alys, Nest, Mabon, Medi, Steffan, Nansi, Loti, Magi, a Luned yn canu ac yn llefaru ac roedd pawb wedi dotio. Diolch i'r swyddogion am drefnu ac i Bethan, Alaw, Fiona a Gwen am ofalu am y baned.



*Llun o'r perfformwyr a Lili, Bela a Jini (merched Siân, Rhydonnen gynt) yn cael ymuno â nhw.*

## Cofiwch gofrestru i bleidleisio

Gofalwch eich bod wedi cofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned a gynhelir ddydd Iau, 5 Mai.

I gofrestru, ewch i www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio. Y dyddiad cau ydi 12am Dydd Iau 14 Ebrill, 5pm Dydd Mawrth 19 Ebrill i wneud cais am bleidlais bost, a 5pm Ddydd Mawrth 26 Ebrill i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy.

***Bore Coffi***

Neuadd y Pentre

Sadwrn 23 Ebrill

10 – 11.30



Elw at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2022

Derbynnir rhoddion tuag at y stondinau cynnyrch cartref

*Croeso cynnes i bawb*

## Bore Coffi

**Neuadd y pentre, dydd Sadwrn 9 Ebrill**

**10.00 – 11.30**

**Yr elw at eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan**

**Derbynnir yn ddiolchgar roddion tuag at y stondinau cynnyrch cartref**

***Croeso cynnes i bawb***

### Costau hurio Neuadd y Pentre

Tan ddiwedd mis Medi 2022, bydd y neuadd a'r gegin ar gael i'w llogi am bris arbennig o £28 am ddwy awr. Dim ond i bobl leol sy'n dymuno trefnu bore coffi i godi arian at elusennau cydnabyddedig y mae'r swm yma'n berthnasol. Bydd disgwyl i'r trefnwyr osod y byrddau a'r cadeiriau, a'u cadw wedyn.

***I logi'r neuadd, cysylltwch â Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.***

# Yr Ystafelloedd Coco

| | |
|---|---|
| 4 Ebrill | 2pm, Trefoil Guild |
| 5 Ebrill | 10am, Clwb Llyfrau |
| | 7pm, Pwyllgor Llais Llandyrnog |
| 19 Ebrill | 10am, Clwb Llyfrau |
| 20 Ebrill | 2pm, Tuesday Club |
| 26 Ebrill | 7 pm, Pwyllgor Llais Llandyrnog |

**Mae'r Cyngor Cymuned angen rywun i roi rhyw ddwy awr y mis i lanhau'r Ystafelloedd Coco, bob yn ail wythnos. Cysylltwch â Bryn ar rbrynd1@gmail.com am ragor o fanylion.**

# Oedfaon mis Ebrill

**Capel y Dyffryn**

| | | |
|---|---|---|
| 3 Ebrill | 9.45 | Trefniant lleol |
| 10 Ebrill | 9.45 | Debbie Roberts |
| 17 Ebrill | 10.00 | Oedfa Pasg yr Ofalaeth |
| 24 Ebrill | 11.00 | Phil Jonathan |

**St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| 3 Ebrill | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 10 Ebrill | 11.15 | Sul y Blodau |
| 17 Ebrill | 9.30 | Cymun Bendigaid y Pasg |
| 24 Ebrill | 11.15 | Cymun Bendigaid |

**St Cwyfan**

| | | |
|---|---|---|
| 3 Ebrill | 9.30 | Boreol Weddi |

**Llan Llanast**

10 Ebrill, 15.30–17.00 yn Neuadd y Pentre

Mae **Edith Hughes** yn diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y anrhegion, cardiau a galwadau ffôn dderbyniwyd ar ei phen blwydd yn 90 oed. Gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn – diolch i bawb.

DBP

Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849

**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Cystadleuwyr llwyddiannus

Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu'n cystadlu yn eisteddfod sir yr Urdd:
Mason Powell: 2il, unawd chwythbrennau, Bl. 7–9
Lloyd Powell: 2il, unawd offerynnau taro, Bl. 6 ac iau
Beca Evans: 3rd, unawd  o sioe gerdd, Bl. 10– 19 ac iau)
Gwenan Mars Lloyd (pob cystadleuaeth Bl. 10– 19 ac iau): 1af, unawd o sioe gerdd; 1af, unawd alaw werin;
1af, unawd merched; 1af, llefaru unigol;
2il, unawd cerdd dant; 2il deuawd cerdd dant gydag Ynyr Rogers.
Nest Lloyd a Beth Evans: 3ydd, deuawd cerdd dant, Bl. 6 ac iau
Mabon Evans: 2il, unawd cerdd dant, Bl. 2 ac iau.

Llongyfarchiadau hefyd i Loti, Ysgol Twm o'r Nant, ac i Nellie, Hannah ac Olwen, Ysgol Bryn Clwyd, a enillodd dystysgrifau yn yr eisteddfod cylch.


**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**
**07808970364**


# Fy nhaith i Lundain



Yn ystod yr hanner tymor mi ges i drip i Lundain gyda fy nheulu – Dad, Mam, Jac a Beca. Roedd y siwrne ar y trên yn llai o amser na beth roeddwn yn disgwyl, ac roeddwn wedi cyrraedd erbyn amser cinio. Ar y diwrnod cyntaf mi es i fyny'r adeilad uchaf yn y Deyrnas Unedig, sef *Y Shard*. Dim ond 30 eiliad a gymerodd y lifft i fynd i fyny 68 llawr – anhygoel! Roedd yr olygfa o'r top yn werth ei gweld, *London Bridge*, adeilad '*Walkie Talkie*' a Big Ben a phob dim yn edrych mor fach. Roedd posib mynd allan i'r awyr agored ar lawr 72 ac roedd hi yn oer iawn yno a gwyntog!

Cawsom fynd am swper i'r *Hard Rock Café*, roedd y 'burgers' yn anhygoel a chawsom bwdin siocled anferth i rannu.

Diwrnod y bws coch awyr agored oedd hi wedyn, cael neidio 'arno a ffwrdd' mewn gwahanol diwrnodau. Roedd y golygfeydd o'r top yn wych ond braidd yn oer a gwlyb ar adegau. Dwi mor falch bod Mam wedi dod â het gynnes i mi. Mi welais *Buckingham Palace, Big Ben, Harrods, Tower Bridge, Picadilly Circus* a *Leicester Square*.

Roedd rhaid i ni fynd i un amgueddfa tra roeddwn yno felly dyma ni yn mynd i'r *Tate Modern*. Roedd y gelf yn wahanol iawn yno, mi roedd yn agoriad llygad ac yn gelf syml ond effeithiol mae'n siŵr.

Roedd y golygfeydd o'r *Sky Garden* hefyd yn wych er bod yr adeilad yn edrych yn od o'r tu allan. Ar y diwrnod olaf cawsom fynd i farchnad bwyd '*Market Hall Victoria'* a oedd yn lle da i fynd oherwydd roedd lot o wahanol fwydydd i ddewis o wahanol wledydd.

Y peth gorau am Lundain oedd mynd i'r *Hard Rock Café*, mynd o dan y ddaear ar '*y tube*' a chael mynd i siopa!

*Beth Evans (Blwyddyn 6)*



# Hanesion Hazel

Yn yr 1970au cynnar, mi brynodd fy rhieni adfail o dyddyn bach yng nghesail Moel Arthur, oedd yn cael ei werthu gan Gyngor Sir Ddinbych (cyn Cyngor Sir Clwyd 1974–1996). Roedden nhw wedi penderfynu cefnu ar 'ras lygod' bywyd y ddinas a symud i Gymru i fyw yn hunangynhaliol. Fe'u hysbrydolwyd gan raglen Tom a Barbara Good yn y *'The Good Life'*; i'r darllenwyr iau sy falle ddim wedi clywed am hon, roedd hi'n gomedi sefyllfa, oedd ar y sgrin o 1975 i 1978. Roedden nhw'n breuddwydio am dyfu llysiau, cadw ychydig o anifeiliaid a byw bywyd mwy syml. Felly yn 1977, blwyddyn Jiwbilî Arian y Frenhines, dyma ni'n hel ein pac a chychwyn bywyd newydd yng Nghymru.

Roedd hi'n adeg ddiniwed plentyn i mi, heb ofal yn y byd – gwyliau'r haf yn para am byth a finne â holl Fryniau Clwyd i anturio arnyn nhw ar fy merlen newydd. Roedd ein ffocws ni ar yr ardd – dyma oedd yn rhoi bwyd i ni, ac i raddau, mae'n para felly hyd heddiw! Symud 'mlaen i 2022, pan yden ni i gyd yn trio bod yn fwy cyfeillgar tuag at yr amgylchedd, ac yn ymwybodol o'n milltiroedd bwyd. Rydw i'n dal ati efo'r etifeddiaeth yna – wedi'r cyfan, pwy sy ddim yn hoffi llysiau o'r ardd!

Ebrill ydi'r cyfnod pan mae mwy o waith yn yr ardd, a'r haul yn cynhesu'r pridd i'w wneud yn haws i'w drin. Drwy ddilyn arferiad fy nhad, rydw i'n rhoi tail ceffylau sydd wedi pydru'n dda ar wyneb y gwely llysiau yn y gaeaf, ac yn ei droi i mewn i'r tir efo'r peiriant palu yn y gwanwyn. Hynny ydi, nes i'r pandemig ddod – rhaid oedd ailfeddwl o ddifri gan fod y siopau hurio offer ar gau. Roeddwn i wedi clywed am ddulliau garddio 'dim palu', felly, beth am fentro? Mi es ar-lein a chanfod dulliau Charles Dowding oedd wedi arloesi efo system 'dim palu' a rheoli pridd yn organig ers talwm iawn (*charlesdowding.co.uk*). Felly, mi adawes i'r tail ar yr wyneb, ei gribinio a chychwyn plannu. Dim ond ers dwy flynedd mae hyn wedi digwydd, ond rydw i wedi sylwi bod 'na lai o chwyn, llai o ddyfrhau, ac, yn bwysicach, llai o boen cefn! Mae'n well i fywyd gwyllt hefyd, gan ei fod yn cloi'r carbon yn y pridd ac yn rhoi help llaw i natur wneud be' mae hi i fod i'w wneud. Gadewch i ni weld sut fydd 'leni'n mynd rhagddi ac mi ga' i weld a fydda' i'n cael llond berfa o lysiau hyfryd!

Mae gerddi'n esblygu gydag amser, ac ryden ni i gyd wedi treulio mwy o amser yn yr awyr agored dros y ddwy flynedd diwethaf. Ym Mawrth 2020, penderfynais wneud gwely asbaragws. Doeddwn i na'm rhieni erioed wedi tyfu'r llysieuyn melys a blasus hwn oherwydd, mae'n debyg, ei fod yn cymryd dipyn o le yn yr ardd ar draul llysiau mwy hanfodol. Ond teimlais ei bod hi'n werth rhoi cynnig arni! Daeth y corunau asbaragws drwy'r post – roedden nhw'n debyg iawn i bryfed cop mawr, heglog, ond mi wnes i eu plannu ar unwaith, yn ôl y cyfarwyddiadau. Llynedd, mi ges i sbrigyn neu ddau, ond y cyngor oedd peidio â'u casglu am 2–3 blynedd, felly, dw i'n gobeithio cael cnwd i'w fwynhau eleni. Ond, bydd Penelope'r iâr a'i ffrindiau'n mwynhau rhyddid yn fuan, ac maen nhw wrth eu bodd yn crafu a chael bath o lwch y pridd. Fy nghynllun, wrth ddilyn ethos ailgylchu, ydi defnyddio hen ysgolion pren a'r coed o do un o'r adeiladau allanol i wneud lloc i amddiffyn y planhigion ifanc bregus. Chwythodd y to i ffwrdd a tharo'r tŷ yn ystod Storm Arwen. Mae'r gwaith ar y gweill!

Cadwch eich llygaid allan am y rhain mis yma – bydd y wennol, y wennol ddu neu wennol y bondo yn ymuno â ni unwaith eto (pwy fydd yn ei gweld gyntaf, 'sgwn i?). Bydd rhaid gwrando am gân y gwcw, ac mae clychau'r gog yn dechrau ymddangos yn y coetiroedd!

Hazel

***Croeso cynnes i Hazel Wright, a fydd yn ysgrifennu colofn reolaidd. Edrychwn ymlaen at glywed rhagor o'i hanes ar ei thyddyn.***

# Tri lle – Iestyn ac Ann Jones Evans

***Porthgain, Sir Benfro***



Pob tro rydyn ni'n ymweld â Sir Benfro, rhaid gwneud amser i ymweld â Phorthgain, pentref a phorthladd bychan i'r gogledd-orllewin o ddinas Tyddewi. Mewn bwthyn yn y pentre' hyfryd hwn cafodd mam Iestyn ei geni. Cyn 1900, pentref pysgota cysglyd oedd Porthgain. Ond gyda'r cynnydd diwydiannol, daeth yn harbwr prysur, llawn bwrlwm. Gellir gweld olion yr hen reilffordd oedd yn cludo llechi o bentrefi Abereiddi a Thrwynllwyd ac o chwarel Porthgain ei hun. Caent eu hollti yn y melinau dŵr yno, a'u hallforio o'r harbwr. Pan ddarfu'r fasnach llechi (oherwydd ansawdd gwael y llechen ddu, fel y'i gelwid), goroesodd Porthgain gyda'r gwaith brics oedd yno (1889–1912), gan ddefnyddio gwastraff llechi. Yma roedd tad-cu Iestyn yn rheolwr. Yna defnyddiwyd dolerit wedi'i falu fel cerrig ffordd (1889–1931), ac fe'u storiwyd yn yr hopranau (sy'n dal yn amlwg yno heddiw).

Unwaith eto, mae tawelwch yn y pentre' yn y gaeaf. Ond pan ddaw'r Haf, daw bwrlwm o ymwelwyr i hwylio, rafftio a chrwydro. Erbyn heddiw, dim ond dwy oriel gelf, bistro a thafarn y Sloop sy yno. Roedd Y Sloop (1743) unwaith yn hafan i ladron y môr, ond erbyn hyn mae'n estyn croeso twymgalon i bawb. Mae'n lle poblogaidd i gerddwyr gan fod Llwybr yr Arfordir yn mynd drwy'r pentre', a Bws Gwennol *Strumble* yn stopio yma.

***Cinque Terre***

Ardal arfordirol ar Rifiera'r Eidal ydi *Cinque Terre,* o fewn Liguria, gogledd-orllewin yr Eidal. Ystyr *Cinque Terre* ydi 'pum pentir' ac mae'n cynnwys pum pentre' hyfryd, lliwgar sy wedi eu hadeiladu ar glogwyni'n gwthio allan i'r môr: *Monterosso al Mare, Vernazza, Corniglia, Manarola,* a *Riomaggiore.* Yn y gorffennol, dim ond un llwybr mulod y *Sentiero Azzurro* (llwybr glas) 12km o hyd oedd yn cysylltu'r pentrefi. Llwybr cul, caregog, serth oedd hwn ar hyd yr arfordir. Os ydych chi'n teimlo'n egnïol, y ffordd orau i ymweld â'r pentrefi ydi ar droed. Un llwybr hudolus, hamddenol ydi hwnnw o *Riomaggiore* i *Manarola – La Via dell'Amore* (ffordd y cariadon) – y llwybr mwyaf poblogaidd gan ymwelwyr! I ymweld â'r pentrefi, anogir ymwelwyr i beidio dreifio lawr i ganol y pentrefi oherwydd y strydoedd culion, a defnyddio'r trên sy'n teithio ar hyd yr arfordir.

Mae gan bob pentre' ei atyniad a'i rinwedd unigryw; Vernazza – y pentre' prydferthaf o'r pump a ddioddefodd lifogydd garw yn 2011, ond sydd bellach yn ôl yn ei ogoniant; *Manarola* – yma bob blwyddyn, rhwng 8 Rhagfyr a 31 Ionawr, ceir hanes y Geni ar ffurf golygfeydd a setiau mwya'r byd.

Yn wir, mae'n werth i chi ymweld ag un o'r ardaloedd prydferthaf yn yr Eidal.



*Vernazza*

***Dulyn***

Dyma i chi le braf, hamddenol a hanesyddol. Ar ein hymweliad â phrifddinas Dulyn fis Medi, mi aethom ni o gwmpas y prif atyniade fel pob twrist werth ei halen – yr Eglwys Gadeiriol, y

# Tri lle: parhad

Castell, cerdded dros Bont yr Ha’penny a’r strydoedd enwog, taro i mewn i ambell amgueddfa, ac, wrth gwrs, profi’r Guinness go iawn! Ond y ddau beth mwyaf diddorol ddaru daro’n sylw ni yno yng nghanol yr adeiladau mwy urddasol oedd:

Y castell a’i fawredd? Nage! Roedd cerflun anhygoel gan Daniel Doyle wedi ei wneud o dywod, o flaen mynediad i’r Castell. Thema’r gwaith celf oedd ‘Ailymgynnull’ – mor addas wedi’r holl gyfnodau clo. Ond roedd o hefyd am bwysleisio bod cyfle i bobol ailystyried eu bywyde, eu gwerthoedd a’u cymdeithas, a meddwl sut i ailddechrau byw mewn ffordd wahanol.



Eglwys gadeiriol genedlaethol St. Patrick? – Nage! Roedd plac disylw ar stryd fach yn ymyl yr Eglwys o’r enw *Fishamble*. Mae o yno i gofio bod Handel, yn 1742, wedi perfformio’r Meseia am y tro cyntaf erioed yn neuadd gerdd fechan o’r enw *Neal* yn y stryd hon. Pam, meddech chi, oedd Handel, Almaenwr yn byw yn Llundain, wedi penderfynu cyflwyno’r gwaith clasurol sy’n cael ei berfformio amlaf yn y byd, yn fan’no? Wel, roedd o wrth ei fodd gyda’r bywyd hamddenol yno ar ôl dianc oddi wrth ei ddyledwyr yn Llundain. Gwasgwyd 700 o bobol i le oedd yn dal 600 gan fod y merched wedi eu siarsio i beidio defnyddio’r ‘hŵps’ yn eu sgertiau, a’r dynion i beidio â chario’u cleddyfau yno!!! Rhyfedd o fyd, a rhywbeth i feddwl amdano wrth wrando ar y Meseia’r tro nesa’.

# Trefoil Guild

Mae’r Trefoil Guild yn falch o fod yn ôl yn yr Ystafelloedd Coco unwaith eto. I dathlu Dydd Gŵyl Ddewi ym mis Mawrth, cawsom ni sgwrs ddiddorol iawn gan Anwen Davies am y Cymry anghofiedig a’u cysylltiadau yn y gorffennol. Gwelsom luniau ohonyn nhw i gyd, a theimlem yn falch o’r hyn roedden nhw wedi ei gyfrannu tuag at Gymru a’r byd. Yna, gwnaethom ni fwynhau paned o de a chacennau cri Anwen.

Hoffem ni’n fawr gael mwy o aelodau. Os ydych chi wedi bod ynghlwm â’r Geidiau yn y gorffennol, dewch, ymunwch â ni a chael hwyl! Ryden ni’n cyfarfod ar Ddydd Llun cyntaf y mis yn yr Ystafelloedd Coco am 2 o’r gloch y prynhawn.

*Ruth Griffith*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Catherine ac Ed Howarth, Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Sian Gwyn Ifan.

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ


01745 817676
07775 717602

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae'r disgyblion cynradd wedi bod yn dilyn cwrs *Bikeablility* – cwrs i ddysgu beicio dan reolaeth llawn, ac yna mynd ymlaen i feicio'n ddiogel ar y ffordd fawr. Felly, efallai y gwelwch chi feicwyr ifanc ar y ffordd wrth i chi fynd drwy'r pentre'.



Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 y cyfle i brofi bywyd ysgol uwchradd yn ystod y Diwrnod Pontio yn Ysgol Brynhyfryd. Yn y llun, maent yn yr adran wyddoniaeth yn cymryd rhan mewn her fforensig ar ôl lladrad dychmygol.






Ar Ddiwrnod Llyfr y Byd, her y disgyblion oedd cynrychioli eu hoff lyfr ar ffurf balŵn aer poeth – cafwyd creadigaethau gwych.



Fel rhan o'r thema Brenhinoedd a Breninesau, bu'r disgyblion iau wrth eu bodd yn ceisio adeiladu Pont Llundain.




Nellie, Hannah a Holly gyda'u tystysgrifau o eisteddfod cylch yr Urdd.

Nellie gyda'i phroject 2022, hanes y byd.



**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Her y Gymdeithas Hanes

Be sy'n gyffredin yn y canlynol:

- 'Meistr prawf' oedd yn profi a graddio aur ac arian yng Nghaer am 45 mlynedd
- Teulu yn ymfudo i America ar long yr un cwmni â'r Titanic
- Un â record anarferol o fod wedi byw mewn tair canrif
- Y dyn ifanc a gafodd ei siomi gan gwmni trên o Fanceinion i Ddinbych – bu bron i hyn arwain at gamgymeriad difrifol.

Yr ateb ydi, eu bod nhw i gyd wedi eu claddu neu eu coffáu ym mynwent eglwys Sant Cwyfan.

Cewch gyfle i ddarllen rhagor am y rhain a nifer o gymeriadau lleol eraill pan fydd cyhoeddiad nesaf Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan yn cael ei gyhoeddi tua diwedd y flwyddyn hon. Mae'n seiliedig ar waith ymchwil enfawr wnaeth aelodau o'r Gymdeithas, ac a gyhoeddwyd ddechrau'r 2000au. Bydd yr argraffiad newydd yn cynnwys diweddariadau a chynnwys estynedig. Y teitl ar hyn o bryd ydi **Eglwys Sant Cwyfan a'r Plwyf ddoe a heddiw**.

Y bwriad ydi cynnwys unrhyw wybodaeth gallwn ni ei ddarganfod am y bobl a goffeir yno. Oes gennych chi berthnasau, ffrindiau neu rywun roeddech chi'n eu hadnabod wedi eu claddu yn Llangwyfan? Ydych chi'n gwybod am unrhyw stori amdanyn nhw fyddai o ddiddordeb i eraill, yn enwedig y rheiny sy'n hel achau? Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth, er mor amherthnasol neu ddinod yr ymddengys yn eich tyb chi, anfonwch neges i'r Gymdeithas trwy ddefnyddio'r e-bost llangwyfanhistory@hotmail.com.

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Tuesday Club

Cyfarfod mis Mawrth oedd cyfarfod cyntaf y flwyddyn i'r Tuesday Club, a'r cyntaf ers i'r aelodau gyfarfod yn y Cherry Pie, Nannerch ar gyfer eu cinio Nadolig. Diolchwyd i Gwilym a Glenys am eu gwaith caled dros yr 16 mlynedd diwetha gan y trefnydd newydd, Anwen Davies.

Estynnwyd croeso cynnes i'r gwestai, Terry Duffy, a'i wraig, Julia. Canodd Terry amrywiaeth o ganeuon yn Saesneg ac yn Gymraeg, i gyfeiliant ei gitâr. Roedd sawl un wedi mwynhau hymian a chyd-ganu'r caneuon cyfarwydd gyda Terry hefyd. Diolchwyd yn ddiffuant iawn i Terry am gyflwyniad hyfryd iawn.



Cafwyd lluniaeth ysgafn a thynnwyd y raffl. Atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf 20 Ebrill.



# Margaret Evans



Mae Margaret, neu Anti Magi, Tyn Llan (gynt) yn un o hoelion wyth y pentref, ac yma ers bron i 70 mlynedd. O'i chyfarfod hi yn y pentref, mi welwch chi'n fuan ei bod hi'n nabod pawb sy'n pasio, a'i bod hi'n amhosib cael sgwrs iawn efo hi gan bod rhaid cyfarch hwn a'r llall!! Cytunodd dan bwysau i ni ei holi, gan ddechre efo ychydig o hanes ei bywyd cyn cyrraedd Llandyrnog.

***Lle cawsoch chi'ch geni a'ch magu?***

Wel, mi weles ole dydd i ddechrau yn Nantglyn, mewn lle o'r enw Rhiw Gerwin, ond pan o'n i tua tair oed, symudodd y teulu – fy nhad, mam a dau frawd i fferm y Garth, Cilcain, oedd yn un o lawer ffarm ar stad fawr Penbedw. Dw i'n cofio'r eira mawr yn 1947 a ninne ar y ffarm ar ochr y mynydd wedi'n cloi i mewn. Ond roedd gan Dad geffyl a sled ac mi ddaru ni lwyddo i fwydo'r anifeiliaid i gyd y gaea' drwg hwnnw. Pan oedd hi'n brafiach, byddem yn mynd reit amal dros y mynydd mewn car a merlen i'r Bancar, Llandyrnog – roedd mam a Mrs Davies, Bancar yn blant ysgol efo'i gilydd yn Ysgol Nantglyn. Wedyn, adre â ni dros y mynydd yn llwythog o ffrwythau ffres!

Pan oeddwn i'n o fach yn Ysgol Cilcain, dw i'n cofio llyncu dime – roedd hi mor sownd, roedd rhaid i mi fynd i Inffyrmari Dimbech ac aros yno am wsnos gyfa', a byw ar fara a llefrith. Ar ôl hir ddisgwyl, mi ddoth y ddime i'r golwg, ac mae gynna i hi'n saff mewn bocs adre 'ma!! Wedyn, ar ôl ysgol fach y pentre, mynd am yr ysgol fawr yn yr Wyddgrug.

***Beth oedd y cam nesa, ar ôl gadael yr ysgol?***

Yn bymtheg oed, mi es i i Blas Pontruffudd i edrych ar ôl dau o blant y teulu Mostyn, ac wedyn i'r Wyddgrug am sbel i warchod plant.

Ond yn 1953, gan fod perthynas i mi, Rhiannon, yn byw yn Llandyrnog gyda'i gŵr Bob, oedd yn blismon yno, penderfynais fynd am waith yn fferm Tyn Llan, yng nghanol y pentre. Roedd gan Olga ac Elwyn angen rhywun i fynd ar y rownd lefrith. A dyna fues i'n neud wedyn am 45 mlynedd hapus iawn. Mi ddaeth y rownd lefrith i ben yn 1998.



*Margaret ac Elwen y tu allan i'r Kinmel Arms*

***Felly i ba ardal oeddech chi'n mynd efo'r rownd lefrith?***

Wel, roedd Elwyn yn godro, felly Olga a fi fyddai'n cychwyn tua 7 y bore, dechre o Tyn Llan. I lawr y ffordd i Lanbedr, Rhewl, Llangynhafal – ambell baned ar fore oer ym Mryn Egwallt efo Trefor a Dilys Howatson, wedyn i Langwyfan a lawr adre i gael brecwest tua 10.

Ar ôl brecwest, mi fyddwn i'n mynd am Blas Ashpool a gweithio fy ffordd yn ôl am Landyrnog – ambell waith yn cael paned a mins pei yn Gader Goch efo Frances, ac wedyn, efo Menna!

Paned ganol dydd – roedden ni'n reit lawn ar ôl y brecwast hwyr! Wedyn yn y pnawn,

# Margaret Evans: parhad

gwaith golchi'r poteli llaeth – efo llaw i ddechre, wedyn peiriant yn golchi dwy botel ar y tro!! Roedd hi mor braf pan gawson ni beiriant yn golchi un crêt ar unwaith – 20 potel ar y tro!!

***Sut oeddech chi'n cario'r poteli llefrith?***
Beic i ddechre, a basged fawr ar y tu blaen – roedd o'n dal tua 40 o boteli. Wedyn beic tair olwyn am sbel, efo platfform, ac roedd ganddon ni gar a merlen. Symud ymlaen wedyn i gael y pic-yp coch i Elwyn a'r pic-yp tanjerîn fel roeddwn i'n ei galw hi!

***Wel, ar ôl cymaint o flynyddoedd, mae'n siŵr bod sawl profiad yn aros yn y co'?***
Wel, ddigwyddodd dim byd ofnadwy i ni, ond dwi yn cofio methu mynd efo'r pic-yp i fyny allt Lodge Farm yn yr eira!! Roedden ni'n sownd yno, pobol yn aros am eu llefrith a dim 'mobail ffôn' amser hynny.

*Ia, gwaith caled, diflino am gymaint o flynyddoedd – mi roeddech chi'n haeddu cael medal am Wasanaeth i Amaethyddiaeth am dros ddeugain mlynedd yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd!*

***Beth am yr oriau tu allan i'r gwaith?***
Pan oeddwn i'n ferch ifanc, roedd mam Olga (Mrs Gwladys Ffoulkes) yn cynnal Clwb Merched Ifanc Llandyrnog. Roedden ni'n gwneud pob math o bethe – tripie i weld dramâu, cael dosbarthiadau dawnsio, helpu efo'r carnifal a mwynhau partïon diwedd tymor. Roedden ni'n talu 2 swllt a 6 cheiniog fel aelode ac yn hel pres at wahanol bethe hefyd – mainc gardd, basgedi sbwriel, lamp stryd, a hyd yn oed hel arian at dir i henoed y plwy – lle mae dau fyngalo Bryn Awelon rŵan. Mi fydden ni wrthi am bythefnos cyn 'Dolig yn canu carolau o gwmpas y lle a rhoi'r pres i gyd at fynd â'r bobol hŷn am drip bob blwyddyn (*am y stori lawn, gweler* Trem yn Ôl).

Roeddwn i'n hapus iawn hefyd yng nghanol pobol Capel y Dyffryn – mynd i'r gwasanaethau a chael cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Festri bob Nos Lun bron, ac mi roedd hi'n gymdeithas mor hwyliog. Wna' i byth anghofio cymryd rhan yn y Pantolawen a'r sioeau fel *Ar Dy Feic* a chael mynd i wahanol lefydd yn yr ardal i'w hactio – mor bell â Bala, a chael llond bol o fwyd a llond bol o hwyl!!

Dros y blynyddoedd roeddwn i hefyd wrth fy modd yn mynd i ryw bedwar tŷ yn yr ardal i warchod y plant bob hyn a hyn. Mae'r plant dal yn fy ngalw'n Anti Magi – roedden ni'n cael cymaint o hwyl!



*Rhai o aelodau Clwb Merched Ifanc Llandyrnog – Margaret ar y chwith yn y rhes flaen. (Llun o* Trem yn Ôl*, cyhoeddwyd gan Gymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan.)*

*Ar ôl ymddeol mae Margaret yn dal i fod yn weithgar yn y pentre. Byddai bore coffi ar hyd y blynyddoedd yn y Stafelloedd Coco ddim 'run fath heb weld Margaret wrth y drws yn derbyn tâl mynediad a gwerthu ticedi raffl efo Grace. Mae hi dal wrthi 'n brysur wrth gwrs, yn y Neuadd, efo Winnie yn gwmni bellach – mae'n siwr bod y ddwy'n cadw'n gynhesach mewn cornel fach glyd o neuadd y pentre.*
*Diolch, Margaret am eich gwasanaeth diflino ar hyd y blynyddoedd.*

# Dyrniniwm

Falle eich bod wedi sylwi ar lawer o fynd a dod ar dir ar draws i'r *Kinmel Arms* yn ddiweddar. Roedd y Detectoryddion Metel o Lannau Merswy (Steve a Harry, yn y llun isod) wedi bod yn ymchwilio yno ar Ddydd Sul 7 Mawrth, ac wedi gwneud darganfyddiadau cyffrous, a dod nôl Ddydd Sul 14 Mawrth. Daeth Steve a Harry o hyd i ddarn arian Rhufeinig ac arteffactau eraill wedi eu gwneud o aur, llestri pridd a theils mosäig. Mae ymchwiliadau pellach wedi datgelu tystiolaeth fod fila Rhufeinig, baddondy ac adeiladau eraill ar y safle. Mae archeolegwyr wedi ymchwilio i'r darganfyddiad newydd yma, ac maen nhw'n sicr mai tref goll Dyrniniwm neu Caerdyrnog ydi hi. Yn ystod misoedd yr haf fe welwch chi brysurdeb mawr yn yr ardal yn ystod y cloddio, er mwyn datgelu'r llawr mosäig. Gobeithio y bydd hyn yn rhan o arddangosfa barhaol, a fydd yn cael ei noddi gan *Procter a Johnson*, perchnogion newydd safle'r Hufenfa.



*Mae Steve a Harry hefyd yn mwynhau darllen Llais Llandyrnog yn fawr!*

# Mynwent eglwys y plwyf

Fel Eglwys rydym ni'n gyfrifol am gynnal y fynwent, ac yn ddiolchgar iawn i dîm o wirfoddolwyr sy'n ein helpu i dorri'r glaswellt, a chynnal a chadw'n gyffredinol.

Rai blynyddoedd yn ôl, penderfynwyd creu cilfachau compost, er mwyn i ymwelwyr roi ynddyn nhw unrhyw ddeunyddiau allai gael eu compostio. Bwriad hyn oedd lleihau'r sbwriel fyddai fel arall yn mynd i domen sbwriel yn ogystal â gwneud 'compost' go iawn.

Yn anffodus, ni ddigwyddodd hyn. Roedd mwyafrif yr ymwelwyr yn eu defnyddio'n iawn, ond gwelwyd y sbwriel canlynol hefyd yn y cilfachau compostio – potiau o bob math, poteli gwydr, torchau '*oasis*' ac ati. Yn ddiweddar, cafodd y cilfachau compost eu gwacáu, ond roedd cymaint o sbwriel ynddyn nhw, bu'n rhaid taflu popeth i domen sbwriel.

Rydym ni'n gwerthfawrogi mai'r peth olaf sy ar eich meddwl ydi cael gwared o sbwriel pan fyddwch yn ymweld â'r fynwent! Felly ewch ag unrhyw ddeunydd na ellir ei gompostio adre gyda chi neu ei roi yn y bin du sydd ar gael. Mae'r llun isod yn dangos ychydig o'r sbwriel oedd yn y cilfachau compost.

Gobeithio y medrwn ni ddibynnu arnoch chi am eich cydweithrediad, ac y gallwn gadw'r fynwent yn daclus gyda'n gilydd a lleihau'r deunyddiau sy'n mynd i'r domen sbwriel.

Diolch yn fawr iawn i chi

*John Rowlands*

*ar ran Pwyllgor yr Eglwys*



# Sefydliad y Merched



Dydd Mawrth, 10fed Mawrth yn y Dinorben Arms, dathlodd naw aelod ein pen blwydd yn 100 oed. Sefydlwyd Sefydliad y Merched Bodfari, Llandyrnog a Llangwyfan ym mis Mawrth 1920 ac mae'n un o'r rhai hynaf yng Nghymru.

Gohiriwyd ein dathliadau canmlwyddiant oherwydd y cyfnod clo. Roeddem ni wedi trefnu dathliad mawr yn y pentref gyda chôr a lluniaeth, ond yn y diwedd, gorfu i ni newid y trefniadau. Rydym ni'n mynd i blannu coeden ar dir yr ysgol a chodi plac i nodi'r canmlwyddiant.

Mae ein Sefydliad wedi mynd drwy amser anodd ond erbyn hyn, mae gennym ni naw aelod a rhaglen amrywiol a diddorol wedi ei threfnu am y 12 mis nesa'.

Diolch i bawb a gefnogodd y bore coffi – rhannwyd yr elw rhwng Sefydliad y Merched a'r Pwyllgor Argyfyngau.

*Cal Venning*

### *Cynllun rheoli drafft 2020-2025*

Mae ymgynghoriad wedi'i lansio ar gyfer cynllun rheoli drafft AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2020-25. Mae pwyllgor yr AHNE yn awyddus i bobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a mynegi eu barn ar sut y dylid rheoli'r AHNE yn y dyfodol. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben 20 Ebrill. Os hoffech chi ddweud eich dweud ewch i countyconversation.denbighshire. gov.uk/projectcy/661. (Mae copïau papur o'r cynllun rheoli ar gael i'w gweld yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Gwledig Loggerheads, Ffordd Rhuthun, CH7 5LH.)

# Rysáit

**Tarten nionyn wedi carameleiddio, tomato a chaws gafr**

**Cynhwysion**

Crwst pwff wedi'i rolio'n barod
2 nionyn coch mawr
3 tomato fawr
Caws gafr (rydw i'n tueddu i brynu rhôl caws a'i dorri'n ddarnau – gweler y llun)
Basil wedi sychu
Oregano wedi sychu
Halen a phupur

Pilio, haneru a sleisio'r nionod. Eu ffrio mewn olew olewydd neu olew llysiau nes eu bod yn feddal ac wedi carameleiddio. Gadael iddo oeri
Rhoi'r crwst pwff wedi'i rolio'n barod ar dun cwcio. Marcio 1cm ar ymyl y crwst a thyllu'r rhan ganol, i osgoi gormod o chwyddo yn ystod y coginio.
Ar ôl iddyn nhw oeri, taenu'r nionod coch wedi'u carameleiddio dros y crwst, gan adael yr ymyl heb ei orchuddio.
Gorchuddio'r nionod efo tomatos wedi eu sleisio'n denau, ac ysgeintio efo basil ac oregano sych, halen a phupur.
Sleisio'r caws gafr a'i roi ar dop y tomatos.
Coginio mewn ffwrn wedi ei chynhesu'n barod i 180 °C am 20 munud, neu nes bod yr ymylon wedi chwyddo ac yn lliw brown euraidd, a'r caws a'r tomatos wedi eu coginio.

*Ed Howarth*



# LLAN Llanast

Dathlodd Llan Llanast Llandyrnog ei degfed pen blwydd ym Mis Mawrth. Roedd hi'n braf gweld cymaint o ffrindiau, hen a newydd, yn dod at ei gilydd a dwyn atgofion am sut y cychwynnodd Llan Llanast, a sut mae pethau wedi datblygu dros y blynyddoedd. Roedd croeso arbennig i'r Hybarch Bernard Thomas a'r Parch. Val Rowlands, wrth iddyn nhw ymuno â Martin i arwain yr oedfa, a hefyd i Catherine a oedd gyda ni yn y Llan Llanast cyntaf!

Bydd y cyfarfod nesa 10 Ebrill, Sul y Blodau, a chroeso i bawb. Blant, cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi er mwyn rhannu'r hwyl!

Ymlaen yn awr at y deng mlynedd nesaf!

*Mary Steel*



Y *Parch. Martin Pritchard, yr Hybarch Bernard Thomas a'r Parch. Val Rowlands*


**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook


## *Dydd Gweddi'r Byd 2022*

Nos Wener, 4 Mawrth yng Nghapel y Dyffryn cynhaliwyd cyfarfod Dydd Gweddi'r Byd bendithiol iawn, gyda merched Capel y Dyffryn ac Eglwysi Sant Tyrnog a Sant Cwyfan yn cymryd rhan. Merched Cymru, Lloegr, Iwerddon a Gogledd Iwerddon oedd wedi trefnu'r gwasanaeth byd-eang eleni. Thema'r cyfarfod oedd 'Addewid Duw' i'w genedl ym Mabilon, a geir yn llyfr Jeremeia: '*Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer*'.

Diolch i Mary Steel a Veronica Roberts am drefnu'r gwasanaeth ac i Anwen Davies am gyfeilio.

## Joanna Scanlan



Mae clywed am ddisgyblion sydd wedi llwyddo yn eu dewis o yrfa bob amser yn bleser. Ym mis Mawrth, enillodd Joanna Scanlon, cyn-ddisgybl yn Ysgol Howell, Dinbych (Coleg Myddelton erbyn hyn), y wobr am yr actores orau am ei rhan yn y ffilm, *After Love*.

Mi wnes i gyfarfod â Joanna pan oedd hi yn y chweched dosbarth, yn astudio Drama dan gyfarwyddyd Miss Betty Lowe. Bu farw Betty fis Tachwedd diwetha yn 98 oed, ac yn anffodus heb wybod am yr anrhydedd fawr roedd ei chyn-ddisgybl wedi'i chael.

Roeddwn i'n dyst i allu actio Joanna pan fyddwn yn mynd â disgyblion i gystadlu mewn gwyliau drama amrywiol, ac roedd ei pherfformiadau'n wych.

Dywedodd Betty Lowe unwaith, wrth wylio Joanna yn perfformio, 'Bydd hon yn tyfu i'w rhannau a bydd hi'n actores wych pan fydd hi'n hŷn.' Roedd hi yn llygad ei lle. Roedd Betty wedi gweld potensial Joanna, ei gallu a'i hymroddiad pan oedd hi'n fyfyrwraig ifanc yn astudio Drama yn Ninbych.

*Wendy Grey-Lloyd*

# Gair gan yr Offeiriad

Nid yw Fy Nheyrnas i o'r Byd hwn! Wrth ddynesu at fis Ebrill 2022, mae geiriau'r Iesu wrth Pilat – oedd yn anfodlon iawn i roi'r Iesu ar brawf – i'w croesawu. Rydw i'n ysgrifennu hwn 21 Mawrth, ac mae'r rhyfel yn parhau yn Wcráin wrth i Rwsia ymosod ar ei chymydog agos, gan dorri pob rheol byd-eang a chwerthin am ben Cytundeb Genefa. Mae pobl ar draws y byd wedi eu brawychu wrth weld yr hil-laddiad, y troseddau rhyfel erchyll, sy'n ymddangos i lawer fel gwastraff ofer ar fywydau a dioddef di-angen. Wrth i bobl ar draws y byd ddefnyddio eu hegnïon i geisio helpu ffoaduriaid Wcráin, mae gobaith i'r hil ddynol eto. Da iawn bawb sy'n chwarae eu rhan yn lleol hefyd – bu rhai ymdrechion clodwiw a chodwyd swm anhygoel o arian tuag at bobl Wcráin. Hir y pery.

Mae'n newyddion da bod geiriau'r Iesu yn y Beibl mor berthnasol ag erioed i'n bywydau ni heddiw. Ar yr 17eg o'r mis hwn, bydd ein dathliad o'r hyn ddaeth Iesu i'n byd i'w gyflawni mor arwyddocaol â chwymp Wal Berlin yn 1989. Er nad ydym ni fel pobl yn dysgu dim gwersi o'r gorffennol, dydi Iesu ddim yn torri ei addewid. Cododd o'r bedd i wireddu ei Deyrnas 'nad yw o'r byd hwn'. Cawsom enghraifft o'i Deyrnas Ef ar waith pan glodforwyd nyrsys a doctoriaid fel arwyr rhyfeddol oedd yn brwydro i achub ein bywydau yn ystod y pandemig.

Mae caredigrwydd rhyfeddol pobl yn helpu trueiniaid Wcráin yn enghraifft arall o deyrnas Dduw ar y ddaear. Wrth gwrs, roedd gweithredoedd da yn digwydd cyn hyn ond oherwydd marwolaeth ac atgyfodiad Iesu, deallwn gwir ystyr cariad Duw.



Gobeithio y cawn ni i gyd Basg bendithiol yn yr ardal eang hon. Ymunwch â mi yn y bore bach, ar fore Sul y Pasg yng Nghastell Dinbych lle byddwn yn dathlu'r atgyfodiad, yn canu, a gwrando ar ddarlleniadau a gweddïau. Bydd croeso i chi wedyn ddod lawr i Eglwys y Santes Fair i fwynhau myffin bacwn ac wy.

Iesu yw'r Arglwydd, felly rhowch eich cynlluniau ar gyfer mis Ebrill i gyd yn ei ddwylo diogel. Mae'n un i ymddiried ynddo - nid yw ei Deyrnas o'r byd hwn, a'i ddaioni mor bur fel y gall ein newid er gwell.

Pasg Hapus i chi i gyd!!!

*Parch Martin Pritchard*
*Offeiriad Ardal Genhadu Dinbych*

# Iolo yn Ninbych

Dros y misoedd nesaf, bydd y naturiaethwr Iolo Williams, yn arwain teithiau natur i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Y gobaith yw rhoi mwy o gyfleoedd i bobl gymdeithasu yn Gymraeg, a helpu i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr.

Bydd taith gerdded yn ardal Dinbych ddydd Sul, 8 Mai. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru ar gyfer y teithiau yma, anfonwch ebost at ardroed@mentrauiaith.cymru.

**Blue Hand Mowers**

**Repair and servicing of all garden machinery:**

**Lawn mowers and lawn tractors**
**Chain saws    Hedge cutters**
**Strimmers    Disc cutters**
**Quad bikes    Leaf blowers**
**Hand tools**

**Collection and delivery service available**
**Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google**
**www.bluehandmowers.co.uk**
**enquiries@bluehandmowers.co.uk**
**☎0775 20 35 462**

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth y Cyngor Cymuned

- Cafwyd pris gan Catalyst ynglŷn â chyflenwi podiau *wi-fi* i'r Stafelloedd Coco. Penderfynwyd aros i weld a all Cyngor Sir Ddinbych orffen y dasg, a chynnig mynediad at *wi-fi* am gyfnod penodol. Yna gallai'r Cyngor Cymuned ymrwymo i'w gyflenwi yn y dyfodol.
- Mae Dr Rachel Pope o Brifysgol Lerpwl wedi sgwennu'n fanwl am y dyddio carbon roedd y Cyngor Cymuned wedi cyfrannu ato. Mae'r canlyniadau cynta'n tueddu i awgrymu mai caer o'r cyfnod Neolithig sydd ar Benycloddiau, yn hytrach na'r Oes Efydd.
- Ceisiadau cynllunio:
  - Y Ceffyl Gwyn – newid defnydd o dŷ tafarn i dŷ preswyl
  - Byngalo Fron Gelyn – cais am dystysgrif defnydd cyfreithlon
- Cytunodd yr aelodau i ymuno ag Un Llais Cymru.
- Trafodwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd oedd yn pwyslesio'r angen i gydymffurfio cymaint â phosibl â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Mae pecynnau enwebu ar gyfer etholiadau cynghorau cymuned yn ogystal â'r amserlen wedi eu rhoi ar wefan y Cyngor Cymuned.
- Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn Llais ynglŷn â chael glanhäwr/glanhawraig am ddwy awr y mis yn y Stafelloedd Coco
- Estyniad i'r Pafiliwn – penderfynwyd pleidleisio ar y mater yng nghyfarfod mis Ebrill, ar ôl cael cyngor gan Un Llais Cymru.
- Cronfa Cynnal a Chadw'r Fynwent – penderfynwyd cyfrannu £400.
- Astudiaeth Ddichonoldeb Llandyrnog – mae Cadwyn Clwyd a Fferm Wynt Brenig, gobeithio, yn cyfrannu'n rhannol at hon. Ond, mae'n bosib y bydd Cymdeithas Chwaraeon a Phêl-droed Llandyrnog angen cyfraniad gan y Cyngor Cymuned tuag yr astudiaeth.
- Mynegwyd pryder am lygredd golau oddi wrth ddatblygiadau diweddar, er mai uchelgais Sir Ddinbych yw sefydlu ardal 'awyr dywyll'. Bydd y mater hwn yn cael ei godi gyda CSDd ynghyd ag ymholiadau i weld a ydi ymgeisydd yr eiddo dan sylw wedi cydymffurfio ag amod perthnasol caniatâd cynllunio ai peidio.
- Adroddiad yr offer chwarae yng Nghae Nant – archwiliwyd yr offer yn ddiweddar yn ôl y gofyn. Roedd yn adroddiad da a'r holl eitemau â risg isel, a lleiafswm o waith ei angen i gydymffurfio â rheoliadau presennol.
- Cafwyd cyflwyniad gan Emyr Morris i'r Cyngor Cymuned, oedd wedi gwneud cais i siarad yn y cyfarfod. Cyflwynodd adroddiad yn annog y cyngor cymuned i ystyried sefydlu pwyllgor i ymgynghori â'r bobl leol am y posibilrwydd o brynu'r siop a sefydlu siop a swyddfa bost gymunedol.

  Penderfynwyd mai'r ffordd orau ymlaen ar hyn o bryd oedd bod y cwestiwn yn cael ei gynnwys mewn astudiaeth ddichonoldeb yn y dyfodol i weld a fyddai diddordeb mewn dilyn y trywydd hwn.

**Cewch gyfle i fod yn gynghorydd cymuned ar 5ed Fai. I gael pecyn gwybodaeth a ffurflen ymgeisydd, ewch i wefan y Cyngor Cymuned: www.llandyrnogcommunitycouncil.co.uk.**

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

Cofiwch mai rhifyn mis Ebrill yw hwn – peidiwch â chredu bob dim rydych chi'n ei ddarllen! Ydych chi wedi gweld y stori ffŵl Ebrill?